CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Hysbysiad o Etholiad

## Cynhelir etholiad ar gyfer un Cynghorydd Tref ar gyfer Cyngor Tref Bae Colwyn (ward Glyn)
## Dyddiad yr Etholiad: Dydd Iau, 31 Gorffennaf 2025

### Cael papurau enwebu

1. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau un ai ym Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ neu'n electronig drwy etholiadol@conwy.gov.uk.

### Cyflwyno papurau enwebu

2. Rhaid cyflwyno'r papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau ddim hwyrach na **4pm ddydd Gwener, 4 Gorffennaf 2025**.
3. Gellir danfon papurau enwebu yn bersonol i'r Swyddog Canlyniadau ym Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig isod.
4. Os bydd etholiad, cynhelir y bleidlais **dydd Iau, 31 Gorffennaf 2025**.

### Cofrestru Etholwyr

5. Rhaid i geisiadau i ychwanegu enw at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ erbyn **dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2025**. Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein yn https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

### Pleidlais bost a thrwy ddirprwy

6. Dylai etholwyr a'u dirprwyon nodi bod yn rhaid i bob cais am bleidlais bost newydd, neu bob cais i ddiwygio neu ganslo pleidlais bost bresennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ erbyn **5pm, ddydd Mercher, 16 Gorffennaf 2025.** Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno diwygio eu trefniadau presennol yn barhaol.
7. Rhaid i bob cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ erbyn **5pm, ddydd Mercher, 23 Gorffennaf 2025.**
8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn ar sail anallu corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **5pm, ddydd Iau, 31 Gorffennaf 2025**. Rhaid i'r rheswm fod wedi digwydd ar ôl **5pm ddydd Mercher, 23 Gorffennaf 2025**.

### Datganiad cyflwyno'n electronig

9. Gellir cyflwyno papurau enwebu yn electronig yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad hwn -
   - **Gwiriadau anffurfiol** - dros e-bost at etholiadol@conwy.gov.uk. Rhowch 'GWIRIAD ANFFURFIOL – GLYN' yn nhestun y neges
   - **Cyflwyno enwebiadau** - ewch i www.conwy.gov.uk/enwebiadau a chyflwynwch y papur enwebu drwy'r porth ar-lein

   Sylwer:

   - Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn cael y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau.
   - Nid yw derbynneb electronig bod y neges wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am ei benderfyniad a yw eu henwebiad yn ddilys neu beidio.
   - Os bydd arnoch angen cymorth i gyflwyno eich enwebiadau'n electronig, cysylltwch ag etholiadol@conwy.gov.uk.

**Rhun ap Gareth, Swyddog Canlyniadau**

**Dyddiedig: Dydd Iau, 26 Mehefin 2025**
**Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ**
**Rhif ffôn: 01492 576052**